

Rydym ni'n recriwtio



Ymunwch â Thîm Conwy



Croeso i Dîm Conwy

Mae'n bleser imi arwain y tîm fel Prif Weithredwr. Dechreuais fy nhaith yma yn 2021 fel Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, ac rwy'n dyst i'r ffaith bod datblygu gyrfaedd a rhoi cyfleoedd i staff symud ymlaen yn un o flaenoriaethau pennaf ein sefydliad!

Ymunais â Thîm Conwy yn ystod yr ail gyfnod clo yn y pandemig Coronafeirws a dysgais yn gyflym iawn fy mod yn rhan o dîm penderfynol, diwyd, ymroddgar a chefnogol.

Mae ein gwerthoedd wedi'u gwreiddio yn ein diwylliant: rydym yn malio am yr hyn a wnawn ni, rydym yn deg i bawb, rydym yn ddyfeisgar, rydym yn dîm. Gwn yn sicr mor galed y gweithiwn i gefnogi'r bobl yn ein cymunedau. A phan ddaw heriau newydd, rydym yn eu hwynebu gyda'n gilydd.

Fe wnafl gloi'r neges hon gyda'n gweledigaeth, a fynegwyd rai blynyddoedd yn ôl bellach. Mae'n dal yr un fath ac yn gwbl berthnasol heddiw: Conwy - sir flaengar sy'n creu cyfleoedd. Daliwch i ddarllen i weld sut allech chi ffitio yn ein sefydliad, a hyderaf y cewch eich ysbrydoli i ymuno â Thîm Conwy.

Diolch,
Rhun.



Pam Conwy?

Rydym yn cydnabod nad ydym ond mor llwyddiannus â'r bobl rydym yn eu cyflogi, ac rydym yn ymrwymo i gefnogi ein tîm. Rydym yn cynnig llawer mwy na dim ond cyflog a delir ar amser. Cynigiwn swyddi gwerth chweil sy'n gwneud gwahaniaeth, buddion ardderchog a chyfleoedd gwych i ddatblygu.

Cydbwysedd go iawn rhwng bywyd a gwaith

Yn dibynnu ar y swydd, rydym yn cynnig nifer o ddewisiadau gweithio i sicrhau cydbwysedd i chi rhwng eich bywyd gwaith a'ch bywyd cartref. Mae bywyd yn ddigon anodd.

Mae ein staff yn sôn yn gyson mai'r cynllun amser hyblyg yw un o'r buddion gorau wrth ymuno â thîm Conwy.

Mae rhai o'r pethau mwyaf mewn bywyd yn digwydd ar adegau pan fyddai sefydliadau eraill yn disgwyl ichi fod yn y gwaith, ond rydym yn cefnogi ein staff drwy gynnig ffyrdd iddynt gyflawni eu gwaith a bod yn bresennol mewn achlysuron cofiadwy â'u teuluoedd.

Ein pecyn gwyliau hael

Pan fyddwch chi'n dechrau gweithio inni fe gewch chi o leiaf 26 diwrnod o wyliau ac wyth o wyliau banc. Ac os nad yw 34 diwrnod i ffwrdd y flwyddyn yn ddigon, mae pethau'n gwella'n nes ymlaen.

Ar ôl pum mlynedd fe gewch chi bum diwrnod ychwanegol, a dau ddiwrnod arall wedi deng mlynedd. Beth allech chi ei wneud â 41 diwrnod o wyliau â thâl bob blwyddyn? Ac os bydd angen i chi weithio ar ŵyl y banc, fe gewch chi dâl ychwanegol am wneud hynny.

Eich iechyd a'ch lles

Mae eich iechyd a'ch lles yn bwysig i ni ac rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant sy'n eich cefnogi chi yn y gwaith a gartref.

Rydym o hyd yn adolygu'r hyn sydd gennym i'w gynnig i'n staff, ond ar hyn o bryd, i'ch cadw chi'n iach, rydym yn cynnig: ap lles rhyngweithiol, profion llygaid am ddim i bawb sy'n defnyddio cyfrifiadur, gostyngiad ar aelodaeth Ffit Conwy a chynllun prydlesu beicio i'r gwaith.

Ar yr adegau hynny pan na fyddwch chi'n teimlo'n dda, yn gorfforol neu'n feddyliol, fe wnawn ni eich cefnogi gyda thâl salwch, llinell gymorth 24/7 i gael cyngor a chwnsela, gwasanaeth iechyd galwedigaethol, mynediad cyflym at ffisiotherapi a chynlluniau gofal iechyd sy'n rhoi arian yn ôl i chi.

Arian a ffordd o fyw

Rydym eisiau eich helpu i gael mwy am eich arian, felly mae gennym ni nifer o adnoddau lles ariannol i'w cynnig.

Rydym o hyd yn asesu'r hyn a gynigiwn i'n staff, ond ar hyn o bryd rydym yn cynnig strwythur cyflog cystadleuol a gaiff ei adolygu bob blwyddyn, taliadau ychwanegol am weithio y tu allan i oriau gwaith arferol, cynllun pensiwn hael a chynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhannu cost i ychwanegu at eich pensiwn.

Mae llawer o'n swyddi ni'n gofyn i chi deithio o amgylch y sir, felly rydym hefyd yn cynnig cynllun prydlesu car gwyrdd, milltiroedd busnes a gostyngiadau ar deithiau bws Arriva.

Ac os nad yw hynny'n ddigon, rydym yn cynnig cynllun Gwobrau Conwy hefyd. Mae hwn yn borth un alwad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eich holl fuddion staff, gan gynnwys gostyngiadau mewn siopau, tocynnau rhodd, tocynnau i'r sinema a mwy.

Ennill a dysgu

Rydym ni'n rhai da am sylwi ar dalent a'i ddatblygu yng Nghonwy. Gan ddefnyddio ein cynllun dysgu a datblygu, fyddwch chi ddim yn aros yn eich unfan yma.

Rydym ni'n frwd dros ddatblygiad a byddwn yn gweithio gyda chi i gyflawni eich nodau tra byddwch chi'n gweithio i wella bywydau trigolion Conwy. Mae rhai datblygiadau'n digwydd yn sydyn: E-ddysgu, seminarau hanner diwrnod, hyfforddiant undydd - cyrsiau gloywi yn ogystal â chysiau newydd.

Ond mae yna gymwysterau academiaidd a chysiau proffesiynol ar gael hefyd. Rydym yn annog ein staff i dreulio amser ar gynnal eu sgiliau fel eu bod yn berthnasol i'r oes sydd ohoni. Mae trosglwyddo sgiliau'n allweddol yn hynny o beth, ac mewn sefydliad amrywiol fel ein un ni mae digonedd o ffyrdd i symud ymlaen yn eich gyrfa.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Croesawn geisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned. Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chonwy, ac rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfle cyfartal i bawb.

- Gallwch ddisgwyl ein bod yn:
- Creu diwylliant sy'n cydnabod a gwerthfawrogi ein staff
 - Hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n rhoi hawl i urddas a pharch i'n holl weithwyr
 - Adolygu'r ffordd y gwnawn ni bethau'n gyson.

Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Wrth sicrhau cyfle cyfartal, rydym yn croesawu pawb, ac yn mynd ati i annog staff i herio ein ffordd o edrych ar gydraddoldeb.



Dyma Craig, un o'n harwyr TG

Ar ôl gyrfa lwyddiannus fel uwch-reolwr am dros ugain mlynedd gyda Tesco, fe benderfynais ddilyn her newydd a gyrfa ym maes TG, felly fe ymunais â thîm Desg Gwasanaeth TG yng Nghonwy (y rhai sydd ar ben arall y ffôn pan mae angen help).

Mewn ychydig dros ddwy flynedd rydw i wedi symud ymlaen i fod yn Uwch Ddadansoddwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol wrth astudio am Radd BSc gyda phrentisiaeth mewn diogelwch seibr cymhwysol ym Mhrifysgol Bangor. Cefais fy ariannu a'm cefnogi gan Gonwy gyda'r cynnydd hwn drwy amser astudio yn ystod amser gwaith.



Ein swyddi

Mae gan Gonwy filoedd o weithwyr yn rhedeg amrywiaeth helaeth o wasanaethau. Gyda mwy na chant o wahanol swyddi, hyderwn y bydd un ohonynt yn ddelfrydol i chi. Caiff y gwasanaethau eu rhannu fesul adain ac adran ac mae yna dîm o fewn pob un o'r rheiny. Oherwydd hyn, mae gan bob tîm eu dynameg unigryw eu hunain sy'n dod â phobl ynghyd drwy rannu'r un nodau.

Er mwyn rhoi syniad o'r hyn a wnawn ni a sut y gallech chi ffitio yn hynny, rydym yn gosod ein swyddi mewn grwpiau. Bydd rhai ohonynt yn gyfarwydd i chi, ond mae'n debyg y synnwch chi at rai eraill. Beth bynnag am hynny, gobeithiwn y gwnewch ein cadw mewn cof pan fyddwch chi'n barod i gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa.

Mae ein holl swyddi'n gwneud gwahaniaeth, a'r grwpiau yw:

- Gweithrediadau
- Gweinyddu
- Gofal
- Technegol
- Proffesiynol
- Rheoli

Gweithrediadau

Byddwch yn ôl pob tebyg yn gyfarwydd â'n swyddi gweithrediadau, gan eich bod yn eu gweld bob dydd yn eich cymuned, a'r rhain sy'n helpu Conwy i weithio ar ei gorau.

Mae ein **swyddi gweithredol** yn cynnwys:

- Criw Ailgylchu
- Staff Blaen Tŷ yn y Theatr
- Hebryngydd Croesfan Ysgol




Gweinyddu

Mae ein timau gweinyddu'n ein cadw mewn trefn.

Mae ein **swyddi gweinyddol** yn cynnwys:

- Derbynyddion
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Cymorth i Fusnesau



Gofal

Mae Conwy'n gofalu drwy'r dydd, bob dydd yn eich cymuned.

Mae ein **swyddi gofal** yn cynnwys:

- Gweithwyr Cefnogaeth Gymunedol
- Therapyddion Galwedigaethol
- Gweithwyr Cymdeithasol



Proffesiynol

Mae ein gyrfaedd proffesiynol yn galluogi ein cymunedau i ffynnu.

Mae ein **swyddi proffesiynol** yn cynnwys:

- Cyfreithiwr
- Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
- Athro/Athrawes



Technegol

Mae ein timau technegol clyfar yn cadw ein sylw ar y gwaith ac yn ein helpu i fod yn ddyfeisgar.

Mae ein **swyddi technegol** yn cynnwys:

- Technegydd Theatr
- Delio gyda Galwadau
- Mecanig



Rheoli

Mae ein timau rheoli'n arwain y ffordd ac yn cynnal ein datblygiad.

Mae ein **swyddi rheoli** yn cynnwys:

- Rheolwr Seilwaith
- Rheolwr Canolfan Hamdden
- Rheolwr Cynllunio



Barod i ymuno â Thîm Conwy?

Dewch o hyd i'ch ffordd

Sganiwch

